

MYND I GERDDED AR Y BWS



Penmaen



'Mynd i Gerdded ar y Bws' yw un o fen-trau Dinas a Sir Abertawe i annog twristiaeth gynaliadwy a ffyrdd iach o fyw drwy hyrwyddo teithiau cerdded byr sydd wedi'u cysylltu â theithiau bws.

Gwybodaeth am Fysus

Dydd Llun-dydd Sadwrn (bob awr)

Dydd Sul (4 taith)

Gower Explorer Rhif 118 i Benmaen o Orsaf Fysus Abertawe (gall rhai teithiau olygu newid).

Gwiriwch cyn teithio.

Linell Deithio Cymru ☎ 0870 608 2 608

www.traveline-cymru.org.uk

Uchafbwyntiau'r Daith Gerdded

- Golygfeydd syfrdanol ar draws Môr Hafren i ogledd Dyfnaint a'r tu hwnt.
- Golygfeydd Bae y Tri Chlogwyn, yn aml yn cael ei ddewis fel un o draethau harddaf Prydain!
- Mae Twyni Penmaen yn safle pentref canol oesol, a gladdwyd gan y tywod yn ystod y 14eg a'r 15fed ganrif.
- Mae blodau gwyllt fel yr eithin, clustog Fair a'r blodyn neidr a'r gludlys gwyn yn orchudd arbennig o liwgar yn y gwanwyn.

Cysylltiadau Defnyddiol

Canolfan Croeso Abertawe

☎ 01792 468321 ✉ tourism@swansea.gov.uk

www.dewchifaeabertawe.com

www.abertawe.gov.uk/aonb



Dechrau a Gorffen:

Safle Bws ym Mhenmaen

Pellter/amser:

Tua 1 1/4 filltir, 1/2 - 1 awr.

Tir:

Yr wyneb yn amrywio o dir caled i dir, meddal ac anwastad. Mae camfa a 2 lethr serth.

Gwybodaeth Diogelwch:

Byddwch yn ofalus wrth groesi'r briffordd brysur. Mae'r llwybr ger clogwyni a llethrau serth uwch ben yr arfordir.

Byddwch yn barod:

Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas ar gyfer yr amodau a'r tymhorau.

Lluniaeth:

Siop/caffi a thafarn ym Mharkmill, 2 filltir i gyfeiriad Abertawe.

Toiledau Cyhoeddus:

Dim.



Dechreuwch yn y maes parcio o flaen y tai ar hyd ymyl y ffordd. Ewch drwy'r gât ar hyd y trac garw. Byddwch yn mynd heibio i gât ar y dde y byddwch yn dod drwyddi wrth ddychwelyd. Am y tro, ewch i lawr y trac. Mae'n culhau rhwng cloddiau uchel, ac yna'n mynd drwy gât ac allan ar Dwyni Penmaen.



O'r gât ar ddiwedd y trac, cadwch i'r dde a dilyn y llwybr ar hyd yr arfordir uwchben y clogwyni sydd uwchben Bae Tor, ac yna'n mynd drwy gât. Wrth wneud hynny, fe welwch Fae Oxwich o'ch blaen.



Gerddwch yn eich blaen am ryw 100 llath cyn troi i gyfeiriad y tir mawr drwy gât, i gerdded ar hyd ymyl cae. Dilynwch hwn nes cyrraedd trac gwelltog.



Dilynwch y trac, gan aildroedio'r llwybr yn ôl i'r briffordd a'r maes parcio. Mae'r bws i Abertawe'n gadael o safle bws bach ychydig lathenni i'r dde ar ochr arall y ffordd.



Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu - Ionawr 2014. Mae taflenni eraill yn y gyfres hon ar gael gan Ganolfan Croeso Abertawe, www.abertawe.gov.uk/aonb Stryd Plymouth, Abertawe SA1 3QG.



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe



Dilynwch y cyfeirbwyntiau ar y llwybr

Llwybrau eraill



Penmaen Walking by Bus



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans
© hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2014

0 0.25 km
0 0.25 milltir